**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU 2022 - 2027**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 a gynhaliwyd Dydd Mercher, 27 Medi 2023 am 5.00 pm ym .

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd J Edwards (Cadeirydd)

Y Cynghorydd B Stephens
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd R Davis
Y Cynghorydd M Ashford
Y Cynghorydd S Evans

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd Sheryl.Evans
Y Cynghorydd C Middle
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd G L Warren
Y Cynghorydd K Webb

**Aelodau cyfetholedig a oedd yn bresennol**

Mr M Veale

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr G Black, Rheolwr Cymunedau Diogel a Phartneriaethau Strategol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Ms S Daniel, Uwch Swyddog Gwasanaethau Llywodraethol

## 18 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Y Cynghorydd Sera Evans – Rydw i'n gweithio i Brifysgol De Cymru a byddaf i'n gadael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar Eitem 5 – Mudo Myfyrwyr Rhyngwladol yn RhCT.

## 19 Cofnodion

PENDERFYNWYD:

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2023 yn gofnod

cywir o'r cyfarfod.

## 20 Dolenni Ymgynghori

Aeth y Blaen Swyddog Craffu ati i atgoffa Aelodau o'r ymgynghoriadau sydd ar agor os byddan nhw'n dymuno ymateb iddyn nhw.

## 21 Ymgysylltu ag Aelod Cabinet ddwywaith y flwyddyn

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad i Aelodau er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw graffu ar y penderfyniadau a gafodd eu gwneud gan yr Arweinydd yn ystod y cyfnod a nodir yn yr adroddiad, a sicrhau bod y mecanweithiau priodol yn eu lle i graffu'n effeithiol ar yr Adain Weithredol.

Cyfeiriodd Aelod at yr adroddiad swyddfeydd a blaenoriaethau buddsoddi a gofynnodd i'r Arweinydd am sicrwydd mewn perthynas â deunyddiau concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC) yn lleol, a'r sefyllfa o ran ein harolygon a'n harchwiliadau ein hunain, a hynny yng ngoleuni canfod y deunydd mewn adeiladau sy'n eiddo i Awdurdodau Lleol cyfagos.

Atebodd yr Arweinydd gan nodi bod y flaenoriaeth mewn perthynas â hyn wedi canolbwyntio ar ysgolion, a rhoddodd sicrwydd bod adeiladau'n cael eu harchwilio'n rheolaidd gan beirianwyr a syrfewyr yn unol â'r drefn arferol ond maen nhw wedi cael eu harchwilio eto oherwydd y sefyllfa ddiweddar. Ychwanegodd yr Arweinydd fod archwiliadau pellach yn cael eu cynnal yng nghartrefi gofal y Cyngor ac maen nhw'n trafod gyda'r trydydd sector i sicrhau bod unrhyw wasanaethau wedi'u comisiynu'n cael eu hadolygu hefyd.

Cyfeiriodd Aelod at yr adroddiad blaenoriaethau buddsoddi a gofynnodd am ragor o fanylion mewn perthynas â blaenoriaethau ar gyfer ardal Porth.

Atebodd yr Arweinydd gan nodi bod y blaenoriaethau buddsoddi yn unol â'r Cynllun Corfforaethol, a bod y Cabinet yn dilyn hwn hefyd. Dywedodd fod gwaith ar Hwb Trafnidiaeth Porth yn dod i ben, a'u bod nhw'n gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru ar hyn o bryd i drosglwyddo'r safle. Ychwanegodd y bydd gwaith adfywio pellach yng nghanol tref Porth yn cael ei ystyried gan ddefnyddio cyllid rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) sydd wedi'i sicrhau gyda datblygwyr preifat i gefnogi twf a datblygiad economaidd. Mae'r Cyngor hefyd wedi prynu darn bach o dir ar Stryd Hannah rydyn ni'n bwriadu ei ddatblygu'n faes parcio arhosiad byr i leddfu rhai o'r problemau parcio yn ardal Porth.

Cyfeiriodd Aelod at y sefyllfa barhaus o ran traffig yn Nhreorci a rhoddodd ddiolch i swyddogion sydd wedi cysylltu bob dydd ac wedi cwrdd â'r Cynghorydd a busnesau lleol. Cyfeiriodd at yr heriau y mae trigolion ac ymwelwyr â'r dref yn eu hwynebu, gan ganolbwyntio ar y tagfeydd sydd yno'n aml a'r ffaith nad oes unrhyw drenau i helpu'r sefyllfa a bod amserlenni bysiau wedi'u cwtogi. Dywedodd fod angen cymorth parhaus ar fusnesau'r ardal gan eu bod nhw'n poeni y bydd raid iddyn nhw gau o ganlyniad i'r problemau maen nhw'n eu hwynebu.

Aeth yr Arweinydd ati i gydnabod bod y sefyllfa bresennol yn heriol iawn yng Nghwm Rhondda uchaf ar hyn o bryd, a nad oes modd i'r sefyllfa barhau fel y mae hi. Dywedodd fod sawl cyfarfod wedi cael ei gynnal gyda chymudwyr a

thrigolion, a bod opsiynau'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd gyda'r cwmni rheoli traffig. Rhoddodd wybod i Aelodau fod gwaith yn cael ei gynnal yn gynt na'r disgwyl (3 wythnos) a bod popeth sy'n bosibl yn cael ei wneud i sicrhau bod y gwaith yn parhau'n effeithlon a bod modd agor y ffordd cyn gynted ag sy'n bosibl.

Cyfeiriodd Aelod at y blaenoriaethau buddsoddi a gofynnodd am y broses o ran cyflawni'r blaenoriaethau hynny mewn perthynas â chynnal a chadw'n priffyrdd a'n llwybrau troed, a ph'un ai gwaith cynnal a chadw ai gwaith atgyweirio sy'n cael blaenoriaeth.

Dywedodd yr Arweinydd fod ymyrraeth y priffyrdd yn rhan o'r flaenoriaeth i sicrhau nad oes unrhyw risg uniongyrchol. Er enghraifft, pe byddai twll yn y ffordd yn dod yn beryglus, byddai'n cael ei lenwi er diogelwch, a'i ychwanegu at restr hir o atgyweiriadau'r dyfodol i sicrhau datrysiad parhaol. Rhoddodd wybod i Aelodau oedd gan yr Awdurdod hawliadau yswiriant uchel yn y gorffennol, ond mae'r rhain wedi mynd yn llai a dyma pam mae'r meini prawf ymyrraeth wedi newid. Argymhellodd yr Arweinydd fod Aelodau'n derbyn cyflwyniad mewn sesiwn ymgysylltu yn y dyfodol.

Gofynnodd Aelod am ragor o fanylion am y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a'r Cynllun Gweithredu.

Atebodd yr Arweinydd gan nodi mai'r rhan fwyaf o'r strategaeth yw gweithio gyda thrigolion i ddod o hyd i'r peryglon rydyn ni'n eu hwynebu a'u deall. Yn anffodus, mae gan Awdurdod Lleol RhCT y perygl uchaf o ran llifogydd dŵr wyneb yng Nghymru. Rhoddodd wybod i Aelodau fod Pentre a Threorci'n ddwy ardal lle mae cynlluniau buddsoddi mawr tymor hir yn cael eu hystyried. Ychwanegodd fod y mapiau ar-lein sy'n dangos y perygl o ran llifogydd dŵr wyneb yn rhannau allweddol o'r Strategaeth Perygl Llifogydd gan eu bod nhw'n codi ymwybyddiaeth busnesau a thrigolion o'r perygl. Roedd adroddiad i'r Cabinet y llynedd yn rhoi gwybod am aelod penodol o staff sy'n cynnal gwaith ymgysylltu i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun a sicrhau bod pobl yn deall y peryglon os bydd rhybudd tywydd melyn mewn grym. Dywedodd y bydd ceisiadau pellach am fuddsoddiad cyfalaf yn parhau ar gyfer hyn.

Gofynnodd Aelod am effaith y cynllun ar gyfer teithio â chymhorthdal ar fysiau dros yr haf.
Rhoddodd yr Arweinydd wybod y gwelon ni gynnydd o 35% yn nefnydd bysiau ym mis Mawrth, pan oedd teithiau am ddim yn ystod y mis. Yn ystod y mis canlynol, pan oedd ffïoedd yn ôl i'r arfer, roedd cynnydd o 7%. Yn dilyn y gwerthusiad yma, cyflwynon ni ffi safonol o £1 ar gyfer defnyddio bysiau dros fisoedd yr haf. Dywedodd eu bod nhw'n dal i aros am y data o ran defnydd yn ystod y cyfnod yma. Serch hynny, rhoddwyd gwybod bod cynnydd i'w weld. Bydd gwerthusiad pellach yn cael ei gynnal yn dilyn defnydd mis Medi a Hydref ond rydyn ni'n bwriadu rhoi'r cynllun ar waith eto ym mis Rhagfyr gobeithio. Nododd ei fod wedi derbyn adborth cadarnhaol am sut roedd rhai teuluoedd wedi arbed llawer o arian yn ystod gwyliau'r haf trwy fanteisio ar y cynllun.

Nododd Aelod fod Cysylltiadau â'r Llywodraeth yn rhan o rôl yr Arweinydd a gofynnodd am hyn.

Atebodd yr Arweinydd gan nodi ei fod yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro, ac yntau'n Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth

Leol Cymru, mae'n cael cyfarfodydd rheolaidd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Michael Gove. Dywedodd fod Arweinwyr Cynghorau De-ddwyrain Cymru yn gynrychiolwyr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac esboniodd sefyllfa'r Llywodraeth Leol o ran pynciau amrywiol. Dywedodd hefyd mai eu blaenoriaethau, beth bynnag fo'u pleidiau gwleidyddol, yw sicrhau'r deilliannau gorau posibl ar gyfer trigolion gan sicrhau dull cydweithredol trawsbleidiol.

Mynegodd Aelod bryderon o ran ansawdd gwaith a chyflwr llwybrau troed yn dilyn gwaith gosod band eang ffeibr. Gofynnodd beth mae'r Cyngor yn ei wneud i sicrhau nad yw'n ysgwyddo'r costau atgyweirio.

Aeth yr Arweinydd ati i gydnabod bod y sefyllfa gyda'r gwaith gosod yn annerbyniol a bod y gwaith heb gyrraedd y safon angenrheidiol. Nododd fod y cwmnïau presennol wedi'u rhyddhau o'u dyletswyddau a bod gwaith ymgysylltu â darparwyr eraill wedi'i gynnal ers hynny. Anogodd Aelodau i roi gwybod am waith o safon wael, a nododd y byddwn ni'n defnyddio'n pwerau priffyrdd i orfodi'r cwmnïau i wneud y gwaith atgyweirio neu godi tâl arnyn nhw am y costau i'r Cyngor.

Cyfeiriodd Aelod at y pecynnau cymorth costau byw a gafodd eu darparu a'u croesawu gan ein trigolion. Gofynnodd yr Aelod a gafodd dull wedi'i dargedu'n fwy at gefnogi trigolion yn ystod yr argyfwng costau byw ei ystyried, er enghraifft, penderfynodd nifer o awdurdodau lleol ariannu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol.

Atebodd yr Arweinydd gan nodi iddo ofyn i swyddogion edrych ar becyn cymorth costau byw cyn gwyliau'r haf, gyda'r bwriad o'i gyflwyno i'r Cabinet ei drafod cyn y gaeaf. Dywedodd er bod costau ynni wedi mynd yn llai, byddan nhw'n parhau i fod yn gymharol uchel gan na fydd unrhyw gyllid cynllun cymorth ynni ledled y DU gyfan ar gael eleni felly bydd teuluoedd yn dal i deimlo eu bod o dan bwysau ariannol. I gloi, dywedodd fod y Cyngor yn ymgysylltu'n barhaus â sefydliadau megis Interlink, Cyngor ar Bopeth a Chydlynwyr yn y Gymuned i ddeall y pwysau sydd ar deuluoedd, ac aeth ati i gydnabod nad y rheiny sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yw'r unig rai sy'n teimlo dan bwysau ariannol.
Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r Arweinydd am fynychu'r cyfarfod ac i'r Aelodau am eu cwestiynau.

**PENDERFYNWYD:**

1. Craffu ar yr Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Isadeiledd mewn perthynas â'r materion a gafodd eu trafod a'u cytuno gan y Cabinet, a phenderfyniadau allweddol a gafodd eu gwneud, yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mai a 20 Medi 2023.

2. Nodi unrhyw feysydd sy'n codi o'r materion hynny a bennwyd yn ystod y cyfnod yma y mae'r Pwyllgor yn dymuno cynnal gwaith craffu pellach arnyn nhw, a hynny'n rhan o'r diwygiadau i raglen waith y Pwyllgor sydd wedi'i chyhoeddi.

## 22 Mudo Myfyrwyr Rhyngwladol yn RhCT

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaeth – Cymunedau Diogel a Phartneriaethau

Strategol yr adroddiad a roddodd drosolwg i Aelodau Etholedig o dueddiadau adleoli a mudo Myfyrwyr Rhyngwladol a'u teuluoedd yn Rhondda Cynon Taf sy'n dod i'r amlwg.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, croesawodd y Cadeirydd siaradwr cyhoeddus, Natalie Evans, Cydlynydd Ymgyrch Banc Bwyd Cwm Rhondda, i annerch y Pwyllgor mewn perthynas â'r eitem yma. Rhoddwyd diolch i'r siaradwr cyhoeddus am ei chyfraniadau a rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Pwyllgor roi sylwadau a gofyn cwestiynau i'r swyddogion a oedd yn bresennol.

Gwnaeth Aelod sylwadau am y pwysau ariannol ychwanegol sydd ar y Cyngor o ganlyniad i fyfyrwyr mudol a'u teuluoedd yn dewis symud i'r ardal, a gofynnodd a yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Cyngor yn ariannol.

Dywedodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned y dylai myfyrwyr mudol ddangos bod modd iddyn nhw gefnogi eu hunain yn ystod y broses cyflwyno cais. Os na fydd modd iddyn nhw barhau i gefnogi eu hunain, yna dyna fater i'r Swyddfa Gartref / problem fisa. Nododd y Cyfarwyddwr fod yr Awdurdod wedi ymgysylltu â Phrifysgol De Cymru (PDC) sydd wedi cynyddu lefel y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n dewis dod â'u teuluoedd gyda nhw. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod gwybodaeth yn cael ei rhoi i fyfyrwyr cyn iddyn nhw benderfynu dod â'u teulu i fyw gyda nhw yn y DU felly bydd pawb sy'n cyrraedd RhCT yn deall yr heriau hynny cyn iddyn nhw gyrraedd. Serch hynny, mae dod â'u teuluoedd gyda nhw gan wybod y risgiau posibl yn parhau i fod yn benderfyniad personol i'r myfyrwyr hynny. Dyma'r rheswm pam dydy cyllid ychwanegol ddim ar gael i Awdurdodau Lleol er mwyn i ni roi cymorth pellach.

Nododd Aelod arall eu bod nhw'n falch o glywed bod PDC yn cynnig rhagor o gymorth i fyfyrwyr yn ystod y broses ond hoffai'r Aelod weld rhagor yn cael ei gynnig. Dywedodd yr Aelod y dylai'r myfyrwyr gael cymorth i ddeall y goblygiadau ariannol fydd gyda nhw pan fyddan nhw'n cyrraedd gan y gallai'r myfyrwyr yma fod yn ddoctoriaid a nyrsys y dyfodol a bod o fudd i'n cymuned yn y tymor hir. Ychwanegodd yr Aelod y dylai'r Awdurdod ystyried sut mae modd i ni helpu'r myfyrwyr a'u teuluoedd sydd eisiau dod i'r DU i astudio a gweithio ymhellach.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned wybod bod Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar reoli rhent gan nad oes cyfraith ar hyn o bryd sy'n rheoleiddio cynnydd rhent cartrefi landlordiaid preifat yng Nghymru, a bod cynnydd yn ffïoedd rhent ledled y DU. Ychwanegodd fod gan y Cyngor ymrwymiad hirsefydlog i ailsefydlu. Serch hynny, dyma garfan benodol iawn gan fod cyfyngiadau'n berthnasol ar eu fisa sy'n cyfyngu ar eu mynediad at waith a chyllid cyhoeddus a'u bod nhw yn y DU i astudio. Os byddan nhw'n parhau i fyw yn y DU ar ddiwedd eu hastudiaethau, bydd angen i'w cyflogwr eu noddi.

Roedd Aelod yn falch o glywed bod PDC yn rhoi cymorth gwell i fyfyrwyr. Nododd yr Aelod nad oes gan y garfan dan sylw hawl i gyllid cyhoeddus a gofynnodd a yw'r awdurdod yn fodlon nad oes unrhyw broblemau diogelu o ran y teuluoedd sydd â phlant ifainc. Aeth yr Aelod ati i gydnabod y pwysau cynyddol ar y gyllideb ond o safbwynt moesegol, gofynnodd yr Aelod a fyddai modd i'r Cyngor roi rhagor o gymorth?

Rhoddodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau

Cymuned sicrwydd i'r Pwyllgor fod y Cyngor yn deall ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant a phobl sy'n agored i niwed, a nododd fod mesurau diogelu ar waith ar gyfer pobl, beth bynnag fo'u statws. Rhoddodd wybod hefyd fod modd i deuluoedd gysylltu â'r Cyngor os byddan nhw'n dod yn ddigartref, gan fod mesurau yn ôl disgresiwn ar gael y mae modd eu rhoi ar waith ar gyfer achosion penodol.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wybod y bydd ysgolion yn sensitif ac yn effro i anghenion eu disgyblion. Ychwanegodd fod yr Awdurdod wrthi'n cyflwyno prydau ysgol am ddim i blant ysgolion cynradd ledled y Fwrdeistref Sirol, a bod hynny'n mynd rhagddo'n gynt na'r disgwyl. Nododd fod gan yr Awdurdod Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd mewn ysgolion sy'n cynnig cymorth ac yn cyfeirio teuluoedd at gymorth. Dywedodd fod mentrau cymorth eraill ar gael megis Big Bocs Bwyd ac ailgylchu gwisgoedd ysgol.

Nododd Aelod fod angen i Brifysgol De Cymru fod yn fwy rhagweithiol o ran helpu myfyrwyr i ddod o hyd i swyddi rhan amser a thai cyn iddyn nhw gyrraedd y DU. Yna bydd modd i deuluoedd symud i fyw'n agos i'r cyfleoedd yma yn lle lleoliadau pell gyda llai o gyfleoedd cyflogaeth.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned wybod bod PDC yn cynyddu ac yn gwella ei gwasanaethau cymorth ond mae anawsterau'n codi pan fo myfyrwyr yn penderfynu dod â'u dibynyddion gyda nhw. Mae PDC yn effro i'r ffaith bod modd i fyfyrwyr gael swyddi ond ei blaenoriaeth yw bod myfyrwyr yn parhau i wneud cynnydd academaidd. Rhoddodd sicrwydd i Aelodau fod yr Awdurdod yn parhau i weithio gyda Phrifysgol De Cymru a'r neges y mae'n canolbwyntio arni ar hyn o bryd yw rhoi cyngor i fyfyrwyr gyrraedd heb eu teuluoedd hyd nes y byddan nhw'n trefnu llety a swydd.

Mynegodd Aelod bryderon o ran meini prawf cymhwysedd defnyddio banc bwyd lle mae angen casglu taleb o'r brifysgol i ddangos yr angen i ddefnyddio'r banc bwyd. Roedd yr Aelod o'r farn y dylai unrhyw un sy'n mynd i fanc bwyd am gymorth gael y cymorth gan fod yna stigma yn gysylltiedig â defnyddio banciau bwyd yn barod. Nododd yr Aelod nad oes modd i'r teuluoedd gael prydau ysgol am ddim chwaith gan nad oes gyda nhw hawl i gyllid cyhoeddus, a gofynnodd am yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun i gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yn RhCT. Nododd yr Aelod ei bod hi'n bwysig cydnabod yr effaith tymor hir y bydd myfyrwyr yn ei chael ar yr economi a diwylliant ein cymunedau, gyda llawer ohonyn nhw'n meddu ar gymwysterau uchel eu parch yn eu gwledydd eu hunain yn barod. Gofynnodd sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â Phrifysgol De Cymru mewn perthynas â hyn. Nododd yr Aelod y byddai hi wedi bod yn ddefnyddiol cael cynrychiolydd PDC yn y cyfarfod i gymryd rhan yn y drafodaeth.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned wybod ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n cefnogi ac yn croesawu *pob* rhaglen ailsefydlu, er bod cymorth ehangach ar gael i fyfyrwyr. Mae darn o waith wrthi'n cael ei gynnal gan y Grŵp Cydlyniant Cymunedol gyda phartneriaid y trydydd sector i sicrhau bod pawb yn effro i'r gwasanaethau sydd ar gael a bod gan bawb fynediad at yr wybodaeth wrth gyrraedd RhCT.

O ran cymhwysedd banciau bwyd, nododd y Cyfarwyddwr nad y Cyngor sy'n penderfynu o ran hyn ond pwrpas cynnwys y meini prawf cymhwysedd yw sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad at yr holl wasanaethau cymorth a gwybodaeth

sydd ar gael iddyn nhw, a bod modd iddyn nhw dderbyn cymorth digonol gan y brifysgol os ydyn nhw'n wynebu caledi.  PDC sydd orau o ran rhoi cymorth iddyn nhw.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wybod nad yw'r garfan yma'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd gan nad oes gyda nhw hawl i gyllid cyhoeddus. Serch hynny, mae hawl gan bob plentyn yn y dosbarth derbyn hyd at flwyddyn 2 i gael prydau ysgol am ddim. Bydd hyn ar gael i blant blynyddoedd 3 a 4 o fis Medi 2023, ac i blant blynyddoedd 5 a 6 o fis Ebrill 2024.

Gofynnodd Aelod a yw'r ffigurau yn yr adroddiad mewn perthynas â Phrifysgol De Cymru yn unig, neu a ydyn nhw'n cynnwys prifysgolion eraill hefyd.  Nododd yr Aelod y byddai'n dda deall yr effaith ar ein system addysg a gwasanaethau cymdeithasol ac unrhyw effaith niweidiol ar ein cymunedau.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned wybod bod y ffigurau'n ymwneud â data'r DU. Serch hynny, mae'r Awdurdod yn ymgysylltu'n bennaf â Phrifysgol De Cymru i ddeall demograffeg myfyrwyr sy'n cyrraedd RhCT.  Os bydd yr Awdurdod yn cael gwybod am fyfyrwyr sy'n byw yn RhCT ac sy'n mynd i brifysgolion eraill, bydd yn ymgysylltu â'r prifysgolion hynny.  Ychwanegodd y Cyfarwyddwr nad ydyn ni'n cadw data myfyrwyr fydd o bosibl yn ailsefydlu yma'n barhaus ar ôl gorffen astudio, gan mai dyna ddata'r Swyddfa Gartref.  Rhoddodd y Cyfarwyddwr sicrwydd i Aelodau fod y data presennol yn dangos nad oes pwysau ychwanegol ar y Gwasanaethau i Blant er bod cysylltiad cadarn ag addysg, a bod trefniadau diogelu ar waith ac ar gael os bydd pryderon yn cael eu codi.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wybod bod adborth yn gadarnhaol iawn a nad yw teuluoedd yn ychwanegu at y pwysau ar wasanaethau canolog. Mewn achosion lle mae pryderon, mae'r ysgolion yn rhagweithiol iawn o ran mynd i'r afael â nhw.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i swyddogion a chynrychiolydd Banc Bwyd Cwm Rhondda am fynychu'r cyfarfod a thynnodd sylw at bryderon Aelodau am y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr, cynnig prydau ysgol am ddim i deuluoedd yn y garfan yma a materion diogelu.  Nododd y Cadeirydd y dylai cynrychiolwyr PDC gael gwahoddiad i gyfarfodydd yn y dyfodol lle bydd yr eitem yma'n cael ei thrafod. Daeth y Cadeirydd â'r drafodaeth yma i ben drwy ofyn i Aelodau am eu cytundeb i anfon llythyr at yr Aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am y maes yma yn gofyn am sefydlu Gweithgor Swyddogion er mwyn sicrhau bod dull cydlynol yn cael ei roi ar waith gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y cyfarfod.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. Bod Aelodau wedi craffu ar gynnwys yr adroddiad a'r wybodaeth mewn perthynas â phatrymau mudo Myfyrwyr Rhyngwladol a'u teuluoedd yn RhCT sy'n dod i'r amlwg, a'r effaith bosibl ar ysgolion a gwasanaethau presennol y Cyngor.

2. Nodi y bydd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned a'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn parhau i weithio gyda Phrifysgol De Cymru a phartneriaid cymunedol i sicrhau bod

cymorth priodol yn cael ei roi i'r myfyrwyr a'u teuluoedd sy'n byw yn RhCT.

Ysgrifennu at yr Aelod o'r Cabinet i ofyn bod Gweithgor Swyddogion yn cael ei sefydlu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd a sicrhau bod dull cydlynol yn cael ei roi ar waith.

**23 Rhybudd o Gynnig – Tlodi Plant**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad i Aelodau er mwyn iddyn nhw ystyried cynnwys y Rhybudd o Gynnig mewn perthynas â Thlodi Plant a gafodd ei gyfeirio gan y Cyngor yn dilyn ei gyfarfod ar 29 Mawrth 2023, at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'w drafod.

Nododd Aelod eu bod o blaid y dull ond hoffai sicrhau bod dull llawn a manwl yn cael ei roi ar waith mewn perthynas â hyn, a gofynnodd am sicrwydd y byddwn ni'n canolbwyntio'n bennaf ar y Rhybudd o Gynnig gwreiddiol.

Atebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu gan nodi bod y Cyngor yn cydnabod bod ganddo nifer o gyfrifoldebau gwahanol mewn perthynas â mynd i'r afael â thlodi plant, a nifer o ymyraethau y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i'r Awdurdod eu cymryd. Dywedodd hefyd y bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhoi gwybod am ei ddarganfyddiadau i'r Cyngor llawn ar ôl trafod y Rhybudd o Gynnig. I gloi, nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fod yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith sydd wedi'i gynnal yn flaenorol gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, a bydd y gwaith yn unol â'r Rhybudd o Gynnig cymeradwy.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. Cytuno i gynnwys y mater yma yn rhan o raglen waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor.
2. Cytuno i wahodd dau aelod o'r Pwyllgorau Craffu – Addysg a Chynhwysiant a Gwasanaethau Cymuned i drafodaeth ar y materion sy'n ymwneud â Thlodi Plant. Gwahodd yr Aelodau a wnaeth gynnig ac eilio'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol (os nad ydyn nhw'n aelodau o'r Pwyllgor yn barod) er mwyn helpu'r trafodaethau.

Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i ddiwygio'r rhaglenni gwaith priodol, a rhoi gwybod am y bwriad i gynnwys y Rhybudd o Gynnig a gafodd ei fabwysiadu gan y Cyngor ar 29 Mawrth, yn y trafodaethau ehangach mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol newydd.

**24 Rhaglen Waith Addysg a Chynhwysiant (Drafft)**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad i Aelodau er mwyn ceisio eu sylwadau a chymeradwyaeth o Raglen Waith ddrafft y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant fel y cymeradwywyd yn ei gyfarfod ar 19 Gorffennaf 2023.

Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant yn falch o gyflwyno'r rhaglen waith yma i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ei chymeradwyo, a gofynnodd i aildrefnu'r eitem y trefnwyd i'r Aelod o'r Cabinet ddod i gyfarfod y Pwyllgor i siarad amdani cyn gynted ag sy'n bosibl. Dywedodd hi fod y rhestr o

eitemau 'heb eu dyrannu' ar y Rhaglen Waith yn dangos ehangder cylch gwaith y Pwyllgor a'r ymgysylltu a diddordeb gan Aelodau. I gloi, dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant er y bydd y Rhybudd o Gynnig mewn perthynas â Thlodi Plant yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gofynnodd i'w gadw'n eitem i'r Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant ei thrafod ym mis Hydref.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. Bod Aelodau wedi trafod, lle bo'n addas, yr eitemau allai gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor fel Adroddiadau Gwybodaeth, a hynny er mwyn rhoi hyblygrwydd i Aelodau drafod unrhyw eitemau brys, gan neilltuo amser rhydd i graffu ar eitemau mwy brys o bosibl.
2. Cytuno ar y materion (os oes rhai) i'w cyfeirio at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, neu Bwyllgor Craffu thematig arall, i'w cynnwys yn eu Rhaglenni Waith unigol yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor dan sylw.
3. Cytuno ar unrhyw faterion ychwanegol i'w cynnwys ar Raglen Waith y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant ar gyfer Blwyddyn 2023/24 y Cyngor, fel y nodir yn Atodiad A gyda diwygiadau priodol yn ôl yr angen.

Bod y drafodaeth ar yr eitem Tlodi Plant yn parhau i fod yn rhan o raglen waith y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant sydd wedi'i chyhoeddi.

**25 Adroddiad Cyflawniad ac Adnoddau'r Cyngor (Chwarter 1)**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad ar Gyflawniad y Cyngor (Chwarter 1) hyd at 30 Mehefin 2023, i'r Aelodau. Rhoddodd wybod am bwysigrwydd yr wybodaeth yma i'r broses graffu, yn enwedig o ran darparu gwasanaethau, ond hefyd o ran pennu materion i'w trafod ymhellach yn seiliedig ar yr wybodaeth am gyflawniad sy'n cael ei darparu. Ychwanegodd mai cyfrifoldeb y Pwyllgor yma yw cyfeirio unrhyw eithriadau at y pwyllgor craffu priodol i'w trafod ymhellach, a hynny o dan y cylch gorchwyl.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Cyllid a Gwasanaethau Gwella yr adroddiad i Aelodau a oedd yn cynnwys manylion am ddatganiadau o sefyllfa chwarter 1 ar gyfer refeniw a chyflawniad y gyllideb gyfalaf; dangosyddion darbodus Rheoli'r Trysorlys; gwybodaeth am Iechyd y Sefydliad gan gynnwys trosiant staff, salwch a risgiau strategol y Cyngor; cynlluniau gweithredu blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol (gan gynnwys dangosyddion cyflawniad a buddsoddi); a rhaglen barhaus y Cyngor o waith i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Yn dilyn y cyflwyniad, rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau.

Gofynnodd Aelod a oes modd cael gwybodaeth am nifer y diwrnodau o salwch ar gyfartaledd fel bod modd i Aelodau gymharu'r Awdurdod â'r cyfartaledd cenedlaethol fesul blwyddyn, fesul aelod o staff.

Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am y targedau oedd wedi'u colli mewn perthynas â Lleoedd Diwylliannol.

O ran recriwtio Swyddog Digidol yn rhan o'r gwasanaeth iBobUn a Llyfrgelloedd i wella'r cynnig digideiddio yn y gwasanaeth, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Cyllid a Gwasanaethau Gwella wybod bod trafodaethau'n cael eu

cynnal gyda Charfan Trawsnewid Digidol y Cyngor, gyda'r bwriad o recriwtio eto yn ystod chwarter 3 eleni. Mewn perthynas â datblygu Hwb Diwylliannol Treorci, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod gwaith wrthi'n cael ei gynnal i ystyried sut mae modd bwrw ymlaen â'r camau gweithredu yma o ganlyniad i aelod o staff yn gadael y gwasanaeth yn ddiweddar.

Mewn ymateb i ymholiad am salwch staff a chadw staff yng Nghyfadran y Gwasanaethau i Blant, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod y cafodd diweddariad ei roi i'r Pwyllgor Craffu – Gwasanaethau Cymuned am Strategaeth y Gwasanaethau i Blant a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y strategaeth gweithlu a mentrau megis gweithlu iach a dull 'datblygu eich gweithlu eich hun' (grow your own) sy'n rhan allweddol o'r Strategaeth. Dywedodd y gofynnir i'r Gwasanaethau i Blant am ragor o wybodaeth am y dull 'datblygu eich gweithlu eich hun' (grow your own) ac am y gwaith sydd wedi'i gynnal yn y maes yma gan y brifysgol.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi sefyllfa'r Cyngor o ran cyflawniad ariannol a gweithredol ar 30 Mehefin 2023 (Chwarter 1).
2. Derbyn gwybodaeth mewn perthynas â salwch staff a dull 'datblygu eich gweithlu eich hun' (grow your own) yn Strategaeth Gweithlu'r Gwasanaethau i Blant.

**26 Materion Brys**

Dim

**27 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

**Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified**

**Y Cynghorydd J Edwards**
**Cadeirydd.**